



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y **Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio**

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mawrth, 2 Mawrth 2021 am 10.00 am

Yn Bresennol: Y Cyngorydd J W Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

P M Black
W G Thomas
C A Holley
M H Jones
T M White

Y Cyngorydd(wyr)

P Downing
S J Gallagher
P R Hood-Williams
P K Jones

Y Cyngorydd(wyr)

E W Fitzgerald
D W Helliwell
L James
S M Jones

Aelodau'r Cabinet

Robert Francis-Davies
Rob Stewart

Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth
Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth
(Arweinydd)

Swyddog(ion)

Huw Mowbray
Phil Homes
Ben Smith
Emily Davies
Martin Nicholls
Stuart Beeby
Claire Dixon

Rheolwr Datblygu Eiddo
Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas
Prif Swyddog Cyllid
Swyddog Craffu
Cyfarwyddwr Lleoedd
Cyfarwyddwr Gweithrediadau Grŵp, ATG
Rheolwr Busnes y DU, ATG

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wy): T J Hennegan

1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau

2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau

3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Ystyriodd y Panel lythyrau a chofnodion o gyfarfodydd blaenorol a chytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

5 Cyflwyniad: The Ambassador Theatre Group (ATG)

Roedd Stuart Beeby, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Grŵp ATG, a Claire Dixon, Rheolwr Busnes ATG UK, yn bresennol i gyflwyno ar ran The Ambassador Theatre Group (ATG). Clywyd:

- Bod ATG yn fusnes integredig fertigol; sy'n gweithredu lleoliadau, yn cynhyrchu sioeau ac yn gwerthu tocynnau.
- Mae gan ATG 46 safle mewn 3 gwlad, gan groesawu dros 13 miliwn o bobl i gyd.
- Lleoliadau eiconig fel Theatr Savoy yn Llundain, The Colonial yn Boston, a'r Smart Financial Centre yn Houston. Gwnaed gwaith adnewyddu gwerth £36m i Theatr Lyric ar Broadway yn ddiweddar ar gyfer tymor newydd Harry Potter.
- Cynnwys – gweithio gyda rhai o'r cynhyrchwyr a'r dalent orau. Mae ein tîm cynrychiadau ATG a'n partneriaid cynhyrchu, Sonia Friedman Productions, rhyngddynt wedi ennill 60 o wobrau Tony ac Olivier gyda'i gilydd.
- Partneriaid proffil uchel megis Disney - yn darparu cynnyrch a sioeau, er enghraifft y Lion King.
- Tîm Tocynnau – yn fewnol a hefyd yn cael eu gwerthu gan asiantaethau eraill. Mae ein platform ATG yn gwerthu dros 12 miliwn o docynnau ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau. Mae gennym hefyd sefydliad arbenigol ar gyfer ymdrin â grwpiau.
- Arena – tîm dylunio a chontractwyr i ddarparu uned gwbl weithredol i'w throsglwyddo i Claire er mwyn creu uned fusnes fasnachol.
- Mae Buckingham yn gwneud gwaith da o ran gwneud cynnydd wrth ddilyn protocolau COVID.
- Er gwaethaf heriau, mae'r gwaith adeiladu ar y trywydd iawn a rhagwelir y bydd ATG yn cymryd yr awenau yn Ch4 2021.
- Canolbwyntio yn awr ar osod offer technegol theatr fel offer sain a goleuadau, isadeiledd TG etc. Gweithio gyda'n partneriaid a hefyd Vodafone.
- Paratoi ac alinio cyflenwyr yn barod ar gyfer comisiynu systemau.
- Yn ddiweddar, cynhaliom alwad am gyflenwyr lleol a ddaeth i ben ddiwedd mis Chwefror. Derbyniwyd dros 100 o hysbysiadau, yn uniongyrchol i'n gwefan yn bennaf. Mae'r broses dethol a holiadur bellach yn rhan o ddilyniant a diwydrwydd dyladwy.
- Rydym yn disgwyl penodi gwasanaethau adeiladu megis cyflenwyr diogelwch a bwyd/diod drwy'r ymarfer hwn.
- Uchafbwyntiau ein taith ATG/Abertawe ers cael ein penodi yn 2017 – gwnaethom benodi cwmni marchnata arbenigol i weithio ar gysylltiadau cyhoeddus, digwyddiadau a chyfryngau cymdeithasol. Nid ar sail ranbarthol yn

unig, ond hefyd i greu effaith genedlaethol. Mae Sundae Communications wedi cyflawni hynny, er enghraifft drwy gyhoeddi penodiad ein Rheolwr Cyffredinol newydd, Lisa Mart.

- Rydym yn cynnal cysylltiad agos â'r asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus a benodwyd gan y cyngor ar gyfer Bae Copr, gan weithio'n agos gyda hwy i gynllunio a gweithredu strategaeth ar gyfer lansio'r arena.
- Rydym wedi gwneud gwaith cychwynnol i edrych ar hawliau enwi. Mae hwn yn waith parhaus, y mae'r pandemig wedi effeithio arno. Disgwyliwn fwy o ddi-ddordeb wrth i'r diwydiant wella.
- Y mis diwethaf, gwnaethom alw am gyflenwyr a phartneriaid busnes lleol. Rhan nesaf y broses yw cyflwyno holiaduron a chyfarfod ag unigolion.
- Y ffocws cyntaf fydd cyflenwyr diogelwch a bwyd/diod.
- Roedd penodi Lisa Mart, Rheolwr Cyffredinol (RhC), yn ddigwyddiad arwyddocaol ar gyfer y prosiect a'r camau nesaf. Bydd Lisa nawr yn edrych ar berthnasoedd cychwynnol ac yn eu datblygu.
- Recriwtio – nifer y swyddi allweddol i'w recriwtio dros y misoedd nesaf. Rydym yn awyddus i ddefnyddio cronfeydd talent lleol. Rydym yn rhagweld y bydd 20 aelod o staff amser llawn yn ogystal â 100 o staff achlysurol amcangyfrifedig, ac rydym yn anelu at recriwtio 70% ohonynt yn lleol.
- Mae'r tîm marchnata yn gweithio ar ddelweddau cyfrifiadurol (CGI) – prosiect modelu sy'n ein galluogi i weld y lleoliad mewn modd rhithwir (VR), gan ganolbwyntio ar hyblygrwydd awditoriwm. Bydd hyn yn caniatáu i gwsmeriaid/gynhyrchwyr gamu i mewn i'r adeilad tra ei fod yn dal i gael ei adeiladu. Offeryn ymgysylltu allweddol cyn lansio.
- Penodi asiantaeth ddylunio Kneath Associates o Abertawe i ymgymryd â brandio'r Arena (gwnaethant hefyd frandio Bae Copr y llynedd).
- Mae sefydlu'r arena fel cyrchfan ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau yn gynllun pwysig – credwn eu bod yn offeryn allweddol i'n galluogi i ddechrau gwerthu lleoedd.
- Y Rheolwr Cynadledda a Digwyddiadau yw un o'r swyddi allweddol nesaf i'w recriwtio.
- Rhaglen lansio meddal – mae cynnwys a rhaglennu yn parhau i fod yn flaenllaw.
- Rhaglen gymunedol sy'n seiliedig ar raglenni adloniant, gan ganiatáu integreiddio yn y gymuned leol. Bydd y RhC yn datblygu hyn, megis digwyddiadau rhagflas, teithiau, gweithdai, gan alluogi'r gymuned leol i ymgysylltu cyn y lansiad swyddogol.
- Bwrw ymlaen â thwristiaeth busnes.
- Holodd y panel am ddyheadau ynghylch digwyddiadau a chynadledda. Esboniodd ATG, fel y nodir yn y cynllun busnes, eu bod yn disgwyl cymysgedd ar draws dwy ardal. Rhwng 100-125 o berfformiadau adloniant a drefnwyd, a thua 60 o ddigwyddiadau cynadledda. Un dyddiadur i'w gynnal, gan reoli digwyddiadau a pherfformiadau.
- Holodd yr Aelodau pa alw lleol sydd wedi'i nodi. Esboniodd ATG eu bod yn gweithio gydag asiantaethau i ddod ag archebion rhyngwladol i'r DU. Disgwylir llawer o archebion ar lefel leol i ddechrau. Gwnaed gwaith ymchwil yn ystod y cam tendro, megis sgysiau gyda'r Brifysgol etc., y galw am leoliad o'i faint gyda

- hyblygrwydd a wal symudadwy ar gyfer sesiwn lawn i 750 o bobl neu gyfanswm o 2,200 o bobl pe bai'n llawn. Dim lleoliad tebyg ar hyn o bryd i gyflawni hynny.
- Rydym yn awyddus i'r Rheolwr Cynadledda a Digwyddiadau newydd ymchwilio i'r maes hwn a pha mor gyflym y bydd y rhan hon o'r busnes yn adfer o'r pandemig.
 - Mae gofod hyblyg yn bwynt gwerthu, ar gyfer cynadledda a sioeau masnach yn ogystal ag e-chwarae, digwyddiadau comic-con, sydd ar gynnydd.
 - Cystadleuaeth – cododd y panel ymholiadau ynghylch a fydd ATG yn ffitio i'r bwllch yn y farchnad neu'n arwain y farchnad bresennol. Cred ATG y byddant yn cydfodoli. Mae llawer o leoliadau yn y DU yn debyg, yn aml yn cerfio gwahanol ardal arbenigol ar gyfer pob lleoliad. Rydym yn gweithio'n hapus gyda sefydliadau diwylliannol eraill. Cyfle i raglennu digwyddiadau sydd ychydig yn wahanol. Nid oes unrhyw un am drefnu digwyddiadau a fydd yn gwrthdaro. Byddwn yn cynnig rhywbeth sydd ar goll ar hyn o bryd, ac yn cydlynu rhywfaint â lleoliadau eraill yn Abertawe.
 - Canolfan Mileniwm Caerdydd (lleoliad tebyg) – mae'r agwedd gystadleuaeth hon yn ymwneud â rhaglennu o safbwynt cynhyrchwyr.
 - Cyflogaeth – mae ATG yn ystyried defnyddio llwybrau lleol i recriwtio swyddi allweddol. Ymrwymo i ddefnyddio cronfeydd talent lleol lle bo hynny'n bosib.
 - Unigryw i Abertawe – lleoliad hyblyg iawn ar garreg y drws, gwahanol gynlluniau a dyluniad seddi, yn hytrach na rhai sefydlog. Mae llawer o gyfleusterau gwahanol yn golygu rhaglennu nad yw wedi'i gyfyngu i 1-2 genre penodol. Mae cynhyrchwyr yn gyffrous am y lleoliad hwn. Bydd hyn yn helpu i gadw pobl yn lleol.
 - Llawer o ddylunio o safbwynt logisteg mewn perthynas â'r adeilad er mwyn gallu mynd i mewn/allan ohono, a'r gallu i dimau/gynorthwyr gael mynediad i'r lleoliad yn effeithlon.

6 Adroddiad Diweddaraf am y Prosiect

Rhoddodd Huw Mowbray, y Rheolwr Datblygu Eiddo, y diweddaraf i'r panel ynghylch y prosiectau adfywio yn Abertawe. Roedd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (Arweinydd), a'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, a Thwristiaeth hefyd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Clywyd:

Bod elfen adeiladu Bae Copr

- Yn mynd yn dda, yn amodol ar ychydig o oedi oherwydd y pandemig. Disgwylir cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Awst/dechrau Medi.
- Mae'r arena bellach yn ddwrglos, mae'r cladin wedi'i gwblhau a disgwylir i'r cladin aur gael ei osod er mwyn paratoi ar gyfer y goleuadau LED.
- Y bont – bwriedir ei gosod y penwythnos hwn, cam mawr ymlaen. Bydd yn ychwanegiad cadarnhaol iawn i Abertawe, y mae'n elfen wych o'r cynllun.
- Defnydd dros dro ar yr ochr ogleddol cyn cwblhau Gogledd Abertawe Ganolog.
- Gwesty – mae'r cyngor yn parhau i fod mewn trafodaethau â thîm ariannu Llywodraeth Cymru.

- Cladin preswyl/teilsio wedi'u cwblhau. Mae fflat arddangos a grëwyd gan Buckingham wedi cael ei ganmol gan Pobl ac mae'n rhoi arwydd clir o faint o le sydd ar gael.
- Ymatebion cadarnhaol i farchnata unedau bach o amgylch yr arena – mae hyn yn gyfrinachol o hyd, ond mewn trafodaethau cyfreithiol gyda nifer o weithredwyr. Roedd y strategaeth brydlesu yn seiliedig ar feddianwyr lleol.
- Mae'r Tîm Diwylliant yn edrych ar y ffordd orau o raglennu elfennau LED yr arena.
- Holodd y panel am symiau ariannu'r Fargen Ddinesig ac a dderbyniwyd ail gyfran o gyllid. Sicrhaodd yr Arweinydd fod hyn yn llifo drwodd, ac mae'n rhagweld effaith gadarnhaol ar broffil ariannu.
- Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cadarnhau symiau nas derbyniwyd yn gorfforol, sy'n ddyledus erbyn diwedd y flwyddyn.
- Holodd yr aelodau a yw £1.3m am bob £18m wedi'i gadarnhau. Mae'n debygol o fod yn fwy arwyddocaol, wedi'i ariannu ar gyflymder sy'n adlewyrchu gwariant prosiectau. Mae Cyngor Abertawe'n parhau â gwaith a phrosiectau adeiladu; mae swyddogion yn disgwyl iddo fod yn sylweddol fwy na £1.3m.
- Y targed o ran y strategaeth osod (unedau bach) oedd busnesau lleol.
- Holodd yr aelodau sut y cafodd y tendr ei gyflwyno? Nid drwy Gwerthwch i Gymru gan nad yw'n addas i'r diben. Lluniodd y cyngor wefan gosod i ennyn diddordeb, ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus ac mae wedi siarad yn uniongyrchol â meddianwyr lleol. Cafwyd mwy o ddiddordeb na nifer yr unedau sydd ar gael.
- Disgwylir deiliadaeth Pobl ym mis Medi 2021.
- Eglurodd yr Arweinydd na fyddai'r unedau'n rhai 'dros dro' ond unedau cwbl adeiledig, wedi'u targedu at fasnachwyr lleol. Unedau mwy ar gyfer cymysgedd o fasnachwyr lleol a chenedlaethol.

Gogledd Abertawe Ganolog

- Mae trafodaethau hwb y sector cyhoeddus yn parhau. Mae datblygiadau newydd yn cael eu hystyried gan weithredwyr y Llywodraeth, disgwylir cyhoeddiadau maes o law.
- Unedau dros dro posib wrth aros i'r cynllun gael ei gyflwyno. Mewn trafodaethau â'r Tîm Diwylliant o ran digwyddiadau dros dro.
- Y posibilrwydd o gynnal 1,000 o bobl, amrywiaeth o safleoedd ar gael a chanddynt le i nifer sylweddol o bobl. Cam 2 neu 3 posib y prosiect hwn. Mae'r potensial ar gyfer meddianwyr ychwanegol yn y sector preifat yn agwedd gadarnhaol arall.
- Diddordeb sylweddol gan adrannau Llywodraeth y DU ac adrannau Llywodraeth Cymru.
- Y nod yw clystyru cyflogaeth sy'n talu'n dda a swyddi tymor hir.

Ffordd y Brenin

- Diffygion yn cael eu cwblhau.
- Gosodwyd rhai sianeli draenio yn wael gan gontractwr blaenorol, ac rydym yn eu cywiro yn awr gan nad yw llif y traffig yn drwm. Mae'r gwaith diffygiol yn berthnasol i fond y contractwr blaenorol, ac rydym yn obeithiol y bydd hyn yn talu am y rhan fwyaf o'r gwaith.

71 a 72 Ffordd y Brenin

- Roedd angen eglurhad ar y tendr. Mae'n cael ei ddadansoddi gan y tîm.
- Adroddiad posib gan y Cabinet maes o law, o ran agweddau costau tendro.
- Panel yn gofyn am ddadansoddiad ar gyfer pob ffynhonnell ariannu prosiect.

Wind Street

- Ni chafwyd presenoldeb arbennig o ddau mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid. Rhai trafodaethau unigol gyda meddianwyr presennol.
- Agwedd lletygarwch y tu allan i adeiladau – arweiniodd trafodaeth gyda gweithredwyr at ofyniad clir iddo fod wrth ymyl yr adeilad. Cynhaliwyd trafodaethau gyda grwpiau mynediad, mae palmant cyffyrddol hefyd yn rhan o'r gwaith dylunio.
- Mae'r heddlu wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori, a hefyd Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU), sy'n hapus gyda chynigion Wind Street.
- Mae agweddau gwrthderfysgaeth hefyd yn cael eu hystyried wrth ddylunio naill ben y stryd.
- Holodd yr aelodau a yw gwrthderfysgaeth bellach yn ymgynghorai safonol ym mhob cynllun? Ydy – ar gyfer y arena, Ffordd y Brenin etc., gan leihau bygythiad terfysgol. Mae mewnbyn yn allweddol. Ymgysylltu â'r tîm yn gynnar er mwyn sicrhau cyfranogiad – dylunio seddau etc. i ddiogelu, ffyrdd amrywiol o liniaru risg.

Adfywio Abertawe

- Sesiynau deialog – mewn trafodaethau ar gyflawni a masnach.
- Cyfarfodydd dilynol gyda chydweithwyr eraill yn y cyngor; cynnwys y cyngor yn eang.
- Ansawdd y cynigwyr sy'n deillio o negeseuon cysylltiadau cyhoeddus da mewn perthynas â'r arena. Rydym yn cystadlu yn erbyn llawer o ddinasoedd eraill. Mae prosiectau mawr Abertawe yn agweddau allweddol ar gyfer pam ein bod wedi derbyn ceisiadau o ansawdd uchel.
- Mae'r arena yn gatalydd ar gyfer cynlluniau pellach a bydd yn creu buddsoddiad pellach.

Ail-bwrpasu Abertawe

- Sefyllfa economaidd anodd ledled y DU. Llawer o fethiannau manwerthu, ac mae mwy yn debygol o ddod.
- O edrych ar ardaloedd craidd y ddinas, beth yw'r ymyriadau allweddol ar gyfer symud Canol y Ddinas yn ei flaen?
- Angen creu hafan yn y Cwadrant.
- Bydd uwchgynllun yn nodi prosiectau allweddol. Rydym ar y camau cynnar o hyd, penodwyd BDP yn ddylunwyr (2-3 mis cyn rhyddhau cynlluniau).
- Ariennir yn bennaf gan Lywodraeth Cymru.
- Grwpiau swyddogion i weithio gyda'r tîm a benodwyd i ddechrau, gan arwain at strategaeth mewn uwchgynllun diwygiedig a chynllun gweithredu newydd sy'n ceisio cyflawni amcanion.
- Darn pwysig o waith i sicrhau bod Abertawe'n symud ymlaen ac y gallwn roi ymyriadau cywir ar waith i helpu gyda'r adferiad.

Cyfnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio (Dydd Mawrth, 2
Mawrth 2021)
Cont'd

- Bydd swyddogion yn adrodd yn fanylach pan fo hynny'n bosib.
- Holodd y panel am gyfleoedd i aelodau gyfrannu – hoffent gymryd rhan yn y gwaith pwysig hwn.
- Mae gweithdai yn debygol yn ystod y broses hon, er bod hyn yn gyfyngedig o ran amser ac mae angen ei gorffen erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Theatr y Palace

- Gwneud cynnydd da ar gyfer ei chwblhau erbyn mis Mehefin 2022.
- Cyflwynwyd cais am statws adeilad rhestredig. Cafwyd caniatâd cynllunio.
- Mewn trafodaethau â'r darpar denant.
- Bwriadu penodi contractwr a phrif dendr ar ddiwedd mis Chwefror.

Pwerdy

- Cyfarfodydd rheolaidd gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL), y prif ariannwr.
- Mae contractwyr wedi gofyn am estyniad amser oherwydd problemau COVID. Y cyngor wedi cymeradwyo estyniad rhannol.
- Mae swm enfawr o archaeoleg yn y ddaear wedi bod yn broblem. Mae cymhlethdodau yma, er eu bod bellach yn hysbys, gall y tîm gynllunio ymlaen llaw yn awr.
- Problemau mewn perthynas â chyfrifon banc prosiectau (CBP), sydd bellach yn un o ofynion y cyngor.
- Nid oes unrhyw fanciau'n sefydlu CBP ar hyn o bryd, oherwydd y pandemig.
- Bydd y cyngor yn gweithio gyda chontractwyr yn absenoldeb CBP i symud ymlaen.
- Gobeithio adeiladu ar hyn gyda Skyline er mwyn creu cyrchfan hamdden fawr.
- Holodd y panel am faterion CBP – esboniodd swyddogion fod hon yn broses eithaf newydd a gall y cyngor ddelio â hyn mewn ffordd draddodiadol er mwyn sicrhau bod is-gontractwyr yn cael eu talu'n brydlon. Parhau i fonitro.
- Holodd yr aelodau am broblemau ynghylch diffyg cyllideb i gwblhau'r cynllun – trafodaeth barhaus gyda CDL. Caniatâd i ryddhau rhywfaint o arian wrth gefn.
- 3 adeilad rhestredig, cyfanswm o 11 ar y safle. Mae ansawdd y gwaith yn rhagorol. Mae gwaith archaeoleg wedi oedi pethau, ond mae potensial mawr i ychwanegu at y gyrchfan. Cydnabuwyd gwaith caled swyddogion.
- Holodd y Panel am Lan yr afon Tawe – mae trafodaethau'n parhau â pherchnogion tir ac mae'r ateb ymarferol posib i greu troedffordd gantlifer yn ateb drud. Mae trafodaethau â Llywodraeth Cymru yn parhau o ran cyllid. Nid yw cynlluniau y tu allan i ganol dinasoedd craidd yn cael eu hariannu ar hyn o bryd.
- Holodd aelodau am y diweddaraf am Bontynau – gwnaed ceisiadau am gyllid er mwyn ceisio cysylltu Canol y Ddinas â'r Hafod a'r Stadiwm y tu hwnt i'r bont wrthbwys.

Camau Gweithredu:

1. Gofynnodd y panel am ddadansoddiad o wybodaeth mewn perthynas â ffynonellau ariannu ar gyfer pob prosiect.
2. Hoffai'r panel gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau newydd ar gyfer Ail-bwrpasu Abertawe, gan gynnwys gwybodaeth am sut/pryd y gall aelodau fod yn rhan o'r broses hon.

7 **Cynllun Gwaith 2020-21**

8 **Llythyrau**

Cafodd llythyrau eu derbyn a'u hystyried gan y panel.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.08

To:
Councillor Robert Francis-Davies
Cabinet Member for Investment,
Regeneration and Tourism

Please ask for:
Gofynnwch am:

Direct Line:
Llinell Uniongyrochol:

e-Mail
e-Bost:

Date
Dyddiad:

Overview & Scrutiny

01792 637314

scrutiny@swansea.gov.uk

23rd March 2021

BY EMAIL

Summary: This is a letter from the Development and Regeneration Scrutiny Performance Panel to the Cabinet Member for Investment, Regeneration and Tourism following the meeting of the Panel on 2nd March 2021. It covers the presentation from the Ambassador Theatre Group, as operator of the Swansea Arena.

Dear Councillor Francis-Davies,

The Development and Regeneration Scrutiny Performance Panel met on 2nd March 2021. We would like to thank all of the officers who attended. We also extend our thanks to Stuart Beeby and Claire Dixon who attended on behalf of The Ambassador Theatre Group (ATG). We greatly valued everyone's engagement and input.

Stuart Beeby, ATG Group Operations Director, and Claire Dixon, ATG UK Business Manager, presented an overview of ATG. We heard that ATG is a vertically integrated business; operating venues, producing shows and selling tickets for iconic venues such as the Savoy Theatre in London, The Colonial in Boston, and the Smart Financial Centre in Houston.

We heard that, regarding the content of shows, ATG works with some of the best producers and talent. The ATG productions team and producing partners, Sonia Friedman Productions, have between them won sixty Tony and Olivier awards collectively. High profile partners, such as Disney, work with ATG to deliver products and shows, for example the Lion King.

OVERVIEW & SCRUTINY / TROSOLWG A CHRAFFU

SWANSEA COUNCIL / CYNGOR ABERTAWE

GUILDHALL, SWANSEA, SA1 4PE / NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE, SA1 4PE

www.swansea.gov.uk / www.abertawe.gov.uk

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod
To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above



We heard how the design and construction teams will be handing over a fully functioning unit to the Business Manager to create a commercial business. It was explained that construction work had progressed well despite challenges posed by pandemic restrictions.

We heard that the next focus will now be on fitting theatre technical equipment such as sound, lighting and IT infrastructure. ATG are also preparing and aligning suppliers ready for commissioning of systems.

We heard that over one hundred expressions of interest were received in response to a call for local suppliers. The sifting and questionnaire process is now part of progression and due diligence; and ATG expect to appoint building services, such as security and food/beverage suppliers, through this exercise.

We heard that ATG had appointed a specialist marketing company to work on PR, Sundae Communications, achieving regional coverage and a national impact. ATG also maintain a close link with the Council-appointed PR agency for Copr Bay, Swansea based Kneath associates, working closely with them to plan and implement a strategy around launching the Arena.

We heard that ATG recruitment is underway, the first appointment being that of Lisa Mart, General Manager. It was pleasing to hear that there are a number of key positions to recruit over the coming months, including a Conference and Events Manager, ATG being keen to utilise local talent pools. ATG anticipate twenty full time staff as well as one hundred estimated casual staff, with the aim of seventy per cent recruited locally.

The panel queried aspirations regarding events and conferencing. ATG expect a mix across the two areas; between 100-125 scheduled entertainment performances, and circa 60 conferencing events. ATG emphasised that this is a very flexible venue, encompassing different layouts and design of seating, rather than a fixed design. Many different facilities mean programming will not be confined to 1-2 particular genres. We look forward to hearing further updates regarding the programming of events to come.

We hope you find this letter useful and informative. We would welcome your comments on any of the issues raised, but in this instance no formal written response is required.

OVERVIEW & SCRUTINY / TROSOLWG A CHRAFFU

SWANSEA COUNCIL / CYNGOR ABERTAWE

GUILDHALL, SWANSEA, SA1 4PE / NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE, SA1 4PE

www.swansea.gov.uk / www.abertawe.gov.uk

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod
To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above



Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to be "Jeff Jones", written in a cursive style.

Councillor Jeff Jones
Convener, Development and Regeneration Performance Panel
✉ cllr.jeff.jones@swansea.gov.uk

OVERVIEW & SCRUTINY / TROSOLWG A CHRAFFU

SWANSEA COUNCIL / CYNGOR ABERTAWA

GUILDHALL, SWANSEA, SA1 4PE / NEUADD Y DDINAS, ABERTAWA, SA1 4PE

www.swansea.gov.uk / www.abertawe.gov.uk

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod
To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above